# COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD IAU 27 CHWEFROR 2020

## 12:00 – 13:30, YSTAFELL GYNADLEDDA C, TŶ HYWEL, CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

YN BRESENNOL: Jenny Rathbone AC (Y Cadeirydd), Helen Mary Jones AC, Joyce Watson AC

RHANDDEILIAID YN BRESENNOL: Rachael Clarke (BPAS), Nadia Bhal (Cwm Taf Morgannwg), Rebecca Blaylock (BPAS), Ffion Clarke (newyddiadurwr), Emma Cox (Endometriosis UK), Bronwen Davies (ARC), Angela Gorman (ARC), Angharad Jones (Caerdydd a'r Fro), Carrie Langley (WHIG), Louise Massey (Aneurin Bevan), Vivienne Rose (BPAS), Alison Scouller (ARC), Debbie Shaffer (FTWW), Lutfi Shamsuddin (Caerdydd a'r Fro), Lowri Shepstone (cynrychiolydd cleifion), Sarah Sweeney (WEN Cymru), Rowan Walsh (cynrychiolydd cleifion) Lowri Williams (WHIG),

YMDDIHEURIADAU: Lesley Blower (ARC), Pauline Brelsford (ARC), Rosemary Cutmore (BPAS), Helen Rogers (RCM), Barbara Street (ARC), Sharon Vine (Cwm Taf Morgannwg)

### 1. CROESO A CHYFLWYNIADAU

Agorodd Jenny Rathbone (JR) y cyfarfod ac fe wnaeth pawb gyflwyno eu hunain.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 6 TACHWEDD 2019

Cytunwyd ar y cofnodion.

### 3. MATERION SY'N CODI

**Ymateb i Vaughan Gething** – Yn unol â'r materion a gododd ym mis Tachwedd, roedd JR wedi anfon llythyr arall at Vaughan Gething ynghylch symud ymlaen ag argymhellion yr adolygiad ar erthyliadau. Ni chafwyd ymateb hyd yma.

**Blaenoriaethau Iechyd Rhywiol GIG Cymru 2020-2024 –** Roedd GIG Cymru wedi cyhoeddi ei flaenoriaethau iechyd rhywiol hyd at 2024, a oedd yn cynnwys cynigion yn ymwneud â phob agwedd ar argymhellion yr adolygiad erthyliadau, gan gynnwys datblygu mecanwaith llofnodi o bell ar gyfer ffurflenni HSA1 a Llwybr Cymru Gyfan ar gyfer cyfnod beichiogi hwyr a ToPs gofal arbenigol.

### 4. DERBYN YR ADRODDIAD BLYNYDDOL AC ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2020.

**Cytunwyd** ar yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2019.

Cynigiodd Helen Mary Jones AC Jenny Rathbone fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, ac eiliwyd y cynnig gan Joyce Watson. **Etholwyd Jenny Rathbone yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Menywod ar gyfer 2020.**

### 5. Y DDARPARIAETH ENDOMETRIOSIS BRESENNOL YNG NGHYMRU

A. PROFIAD Y CLAF. Rhoddodd Debbie Shaffer ac Emma Cox gyflwyniad ar brofiadau cleifion endometriosis yng Nghymru. Mae endometriosis yn effeithio ar un o bob deg o ferched a phobl sy'n cael mislif, a dim ond un gwasanaeth arbenigol sydd ar gael yng Nghymru (yng Nghaerdydd). Dywedodd y ddwy fod cleifion ag endometriosis wedi cael llawer o brofiadau clinigol gyda meddygon teulu ac ysbytai cyn cael diagnosis o endometriosis, a hyd yn oed mwy o gyswllt cyn cael triniaeth – os o gwbl. Ar gyfartaledd, bydd cleifion yng Nghymru yn mynd at feddyg teulu 26 gwaith cyn cael diagnosis.

B. BETH SY'N GWNEUD GWASANAETH ENDOMETRIOSIS DA? Siaradodd Lutfi Shamsuddin am y gwasanaeth yn Ysbyty'r Mynydd Bychan yng Nghaerdydd. Mae'n ymgynghorydd yn y gwasanaeth arbenigol sydd wedi bod ar waith ers y 1990au, gyda 3 ymgynghorydd a nyrs endometriosis arbenigol. Mae yno glinig endometriosis pwrpasol bob pythefnos. Mae llawer o gleifion yn cael eu cyfeirio o unedau eraill lle cawsant eu diagnosis cychwynnol. Oherwydd natur y gwasanaeth arbenigol, mae mwy o amser ar gael i bob claf, yn ogystal â thimau amlddisgyblaethol i drin achosion cymhleth. Nid oes gwasanaeth tebyg yng ngogledd Cymru, lle mae cleifion yn mynd i ysbytai Arrowe Park neu Countess of Chester yn Lloegr. Mae gwasanaethau arbenigol yn brin yn rhannol o ganlyniad i'r setliad cyllido lle nad yw cyllid yn dilyn y claf, yn wahanol i Loegr, a gall hyn olygu nad oes cymhelliad i unedau ddarparu gofal cymhleth. Mae'r gwasanaeth yn awyddus i sefydlu canolfan endometriosis rithwir ond mae angen help ac arian arno i'w sefydlu.

C. Y GWAITH PRESENNOL I WELLA GOFAL ENDOMETRIOSIS. Rhoddodd Lowri Williams a Carrie Langley y wybodaeth ddiweddaraf i'r cyfarfod am y Grŵp Gweithredu ar Iechyd Menywod (WHIG), a sefydlwyd gan y Gweinidog Iechyd yn 2018, a'i waith ar rwyll, endometriosis, ac anymataliaeth ysgarthol. Mae'r Grŵp Gweithredu yn cynnwys clinigwyr, Fair Treatment for the Women of Wales, a swyddogion y llywodraeth. O hyn ymlaen, bydd y Grŵp Gweithredu yn cael ei rannu'n ddwy ran, gydag un o'r rhain yn canolbwyntio ar endometriosis. Mae'r grŵp yn creu adnoddau i hyfforddi clinigwyr ynghylch sut beth yw byw gydag endometriosis, yn creu gwefan ar lesiant a'r mislif, ac yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i gyflogi nyrsys endometriosis arbenigol yn unol â chanllawiau NICE.

## 6. TRAFODAETH AR EDRYCH TUA'R DYFODOL

Roedd y drafodaeth yn cynnwys canolbwyntio ar effeithiolrwydd ac argaeledd triniaethau, effaith byw gydag endometriosis ar iechyd meddwl, trefniadau ariannu, ac addysg ynghylch iechyd a llesiant y mislif. Yn benodol, trafododd y grŵp:

- Bod angen i lawfeddygon y tu allan i ganolfannau arbenigol fod yn darparu llawdriniaeth a sicrhau bod y llawfeddygon hyn wedi'u hyfforddi'n ddigonol i adnabod a thrin endometriosis i sicrhau gofal o ansawdd uchel
- Diffyg cydnabyddiaeth o effaith byw gydag endometriosis ar iechyd meddwl, a diffyg atgyfeirio a rhannu gwybodaeth i sicrhau y gellir darparu gofal cyfannol
- Cronfa ddiweddar o £1 miliwn gan Lywodraeth Cymru, y gall pob un o'r 7 Bwrdd Iechyd wneud cais am arian ganddo i wella gofal endometriosis lleol
- Anawsterau trin cleifion o ran gwneud Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR) – a'r angen am gyllid arbenigol sy'n dilyn y claf i oresgyn rhwystrau o ran triniaeth a chyllid. Felly, mae gofal

endometriosis yn wynebu rhwystrau tebyg i fenywod sy'n ceisio cael erthyliadau diweddarach neu erthyliadau sy'n cynnwys anghenion meddygol cymhleth.

- Yr angen i lesiant mislif gael ei gynnwys yn y cwricwlwm yng Nghymru yn yr un ffordd ag y mae wedi'i gynnwys yn y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd yn Lloegr – addysgu merched a phobl ifanc sy'n cael mislif ar yr hyn i'w ddisgwyl o fislif 'normal' er mwyn nodi lle gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt
- Y potensial ar gyfer dadl drawsbleidiol yn y Cyfarfod Llawn ar ofal endometriosis ac ar gyfer cynnwys addysg am y mislif ar y cwricwlwm yng Nghymru

## 7. CYFARFODYDD YN Y DYFODOL

Ymhlith y pynciau posibl ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol roedd gofal iechyd meddwl menywod, y menopos, ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Cytunodd RC i ddosbarthu gwybodaeth am yr ‘Endo March’ a gynhelir ar 28 Mawrth.

**Y cyfarfod nesaf: Mehefin 2020, i’w gadarnhau. Pwnc i'w gadarnhau.**